

CANLLAWIAU CRED – Pennod 1

Dysgeidiaeth Iesu Grist ar fywyd a gweddi

Cyfrol 2

MI A'I GWNAF

Ar wahân i'w ddysgeidiaeth ar weddi yn y Bregeth ar y Mynydd, ynghyd â'r dilyniant a gofnodir gan Luc pan roes Iesu Grist Weddi'r Arglwydd am yr ail waith i'w ddisgyblion (Luc 11:1-13), cymharol fach yw nifer y cyfeiriadau a wnaeth at weddi yn ystod ei weinidogaeth. Trawiadol, felly, yw'r ffaith iddo gyfeirio deirgwaith at y pwnc y noswaith olaf a dreuliodd yng nghwmni'r disgyblion. O gofio'r amgylchiadau, ni allai dim fod yn fwy naturiol.

Sefyllfa ddigon cyfarwydd yw bod mewn ystafell pan fo rhywun annwyl ar fin ymadael i fynd i fyw mewn rhan arall o'r byd: pawb yn dal ar bob cyfeiriad a wna at yr hyn sydd bennaf ar eu meddwl – sut y gellir cadw mewn cysylltiad; dyddiad arfaethedig ei ddychweliad, ac yn y blaen. Rhywbeth felly oedd yn digwydd yn yr oruwchystafell y noson honno. Roedd yr awr y cyfeiriodd Iesu Grist ati droeon yn ystod ei weinidogaeth – 'fy awr i' – ar y trothwy, ac roedd yntau'n egluro i'w ddisgyblion nid yn unig sut y gallent hwy (a'r rhai a ddeuai ar eu hôl) gysylltu ag ef ar ôl hyn ond hefyd gydweithio ag ef. Fel y gallwn ddychmygu, fe fyddai i weddi le allweddol yn y trefniadau.

Tri gwirionedd pwysig

Wedi ceisio eisoes roi sylw i'r hyn a ddysgodd Iesu Grist am weddi yn y Bregeth ar y Mynydd, ein bwriad bellach yw mynd ar ein hunion at y wybodaeth hynod werthfawr a roes i'w ddisgyblion y noswaith olaf hon cyn eu gadael. Yr hyn a ganfyddwn fydd bod yr Arglwydd Iesu Grist wedi gosod pwyslais tebyg ar yr un tri gwirionedd ag a bwysleisiwyd ganddo yn ei ddysgeidiaeth am weddi yn y Bregeth ar y Mynydd.

Yn gyntaf, yn union fel y cyfrifai fod y disgyblion ymhlith y rhai a bortreadwyd ganddo yn y Gwynfydau, daw yn amlwg ei fod ym mhob gair a ddywedodd yn yr oruwchystafell yn ystyried bod y disgyblion wedi eu rhoi iddo gan y Tad i fod yn eiddo iddo. Nid ar ddydd y Pentecost y daeth y disgyblion yn Gristnogion fel y carai rhai inni gredu.

Y

n ail, fel yr argraffodd ar feddyliau ei ddisgyblion yn y Bregeth ar y Mynydd

bwysigrwydd eu bod yn parchu gofynion y ddeddf, fe wnaeth yr un modd ar y noswaith olaf cyn eu gadael.

Yn drydydd, fel y bu iddo ddangos iddynt yn y Gwynfydau eu bod i ymddiried yn eu Tad nefol am y nerth i fyw yn unol â'r gorchmynion hynny, felly hefyd yn yr oruwchystafell eglura fod cymorth rhyfeddol ar gael i'w galluogi i wneud hynny.

Fe fyddai'r hyn a ddywedodd Iesu Grist am ei ddisgyblion wrth weddio ar ei Dad nefol ar eu rhan (Ioan 17) y noswaith olaf y bu yn eu cwmni yn ddigon o dystiolaeth ei fod yn credu eu bod ymhlith y rhai 'a etifeddodd Deyrnas nefoedd'.

'Mi a'th ogoneddais di ar y ddaear. Mi a gwblheais y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur . . . Mi a amlygais dy enw i'r dynion a roddaist i mi allan o'r byd. Eiddot ti oeddynt, a thi a'u rhoddaist hwynt i mi, *a hwy a gadwasant dy air di*. Yr awron y gwybuant mai oddi wrthyt ti y mae'r holl bethau a roddaist i mi. *Canys y geiriau a roddaist i mi a roddais iddynt hwy; a hwy a'u derbyniasant*, ac a wybuant yn wir mai oddi wrthyt ti y deuthum i allan, ac a gredasant mai tydi a'm hanfonodd i' (Ioan 17:4, 6-8).

'A mi a ogoneddwyd ynddynt . . . A'r gogoniant a roddaist i mi a roddais iddynt hwy, fel y byddont un, megis yr ydym ni yn un: *myfi ynddynt hwy, a thithau ynof fi*; fel y byddont wedi eu perffeithio yn un' (17:10b, 22-23a).

Dweud yr oedd Iesu Grist wrth ei Dad nefol ei fod wedi cyflawni'r gwaith a roes iddo i'w wneuthur tra bu yma ar y ddaear. Pan ofynnwn 'Beth oedd y gwaith hwnnw?' mae'r ateb yn glir: gogoneddu'r Tad trwy amlygu ei enw i'r rhai a roes y Tad iddo. Gwnaeth hynny mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, trwy roi 'ei air' iddynt. 'A hwy a'i cadwasant', meddai am hwnnw yn ei gyfanrwydd. 'A hwy a'i derbyniasant', meddai ymhellach am bob rhan ohono. Yn ail, fe'i gwnaeth trwy ei ogoneddu ei hun ym mywydau'r cyfryw. 'A mi a ogoneddwyd ynddynt', meddai yn adnod 10. Gan fod y Tad nid yn unig yn byw ynddo ond yn gweithredu trwyddo, o'i roi ei hun iddynt fel eu bod yn dod i'w adnabod, yr oedd yn dilyn o reidrwydd eu bod yn dod i adnabod y Tad – 'yr hwn a'm gwelodd i a welodd y Tad.'

Yn wyneb y fath dystiolaeth, anodd fyddai i neb gwestiynu a oedd y disgyblion yn gredinwyr ai peidio. Byddwn yn dychwelyd at y pwnc hwn pan gawn achos i

sylwi'n fanylach ar yr adnodau hyn.

Gweithredoedd pwy?

Wrth droi at yr ail a'r drydedd agwedd ar ei ddysgeidiaeth yn yr oruwchystafell oedd yn debyg i'r hyn a bwysleisiwyd ganddo yn y Bregeth ar y Mynydd (y pwysigrwydd a osododd Iesu Grist ar fod ei ddisgyblion yn cadw gorchmynion y gyfraith, a'r cymorth a oedd yn addawedig iddynt i'w galluogi i wneud hynny), awn ar ein hunion i'r fan honno yn ei ymgom â'i ddisgyblion (Ioan 14:12) pryd y cododd bwnc cwbl newydd. Llefarondd hefyd eiriau sy'n ymddangos ar yr olwg gyntaf yn rhai anodd iawn eu derbyn, hyd yn oed o'i enau ef. Dyma'r man lle y dechreuodd sôn am weddi a gweddio y noson honno: 'Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, yr hwn sydd yn credu ynof fi, y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, yntau hefyd a'u gwna, a mwy na'r rhai hyn a wna efe; oblegid yr wyf fi yn myned at fy Nhad' (Ioan 14:12).

Ymateb y rhan fwyaf wrth ddarllen y geiriau hyn yw gofyn, 'Sut y gallai neb, gan gynnwys Iesu Grist ei hun, awgrymu y byddai gweithredoedd y rhai a fyddai'n credu ynddo yn fwy na'r gweithredoedd a gyflawnodd efe pan oedd yma ar y ddaear?' Ni all neb amau nad hynny a ddywedodd. Sut mae eu deall felly?

Cawn anhawster i ddeall ei eiriau am ddau reswm. Yn gyntaf, yn ail ran yr adnod, mae Iesu Grist yn ddiamheuol yn gwrthgyferbynnu gweithredoedd y credadun ('yr hwn sydd yn credu ynof fi') â'r gweithredoedd a gyflawnodd ef ei hun yn nyddiau ei gnawd. Fe fydd gweithredoedd y credadun ddydd a ddaw, meddai, yn fwy na'r gweithredoedd a gyflawnodd efe ar y ddaear. Yn rhesymol ddigon, cawn ein hunain yn methu'n lân â deall sut y gallai neb awgrymu'r fath beth.

Y rheswm pam ein bod yn cael anhawster yw oherwydd ein bod yn mynnu priodoli'r cyferbyniad hwn i ran gyntaf yr adnod a meddwl bod Iesu Grist yn y fan honno hefyd yn cyferbynnu ei weithredoedd ef *yn nyddiau ei gnawd* â'r gweithredoedd a wnâi y sawl a fyddai'n credu ynddo ef. Yr hyn a wnawn mewn gwirionedd yw ychwanegu'r ymadrodd bach 'yn awr' ar ddiwedd rhan gyntaf y gosodiad fel ei fod (i'n tyb ni) yn darllen fel hyn: 'y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur *yn awr.*' Er y gallai'r frawddeg olygu hynny, does dim rhaid dod i'r casgliad hwnnw, yn enwedig o ystyried bod yng nghystrawen y frawddeg resymau digonol dros beidio â gwneud hynny.

Yn ei *The Elements of New Testament Greek* (Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 1965, t.26) eglura J.W. Wenham nad yw'n ofynnol yng Ngroeg y Testament Newydd i gynnwys rhagenwau personol mewn brawddeg *oni bai bod angen rhoi pwyslais arbennig ar y person*. Bydd y ferf ei hun yn gwneud y gwaith. Yn y frawddeg sydd dan sylw, fodd bynnag, *cynhwysir* y rhagenw personol 'fi'. 'Y gweithredoedd yr wyf *fi* yn eu gwneuthur, yntau hefyd a'u gwna.' Dyna fel y llefarodd Iesu Grist y geiriau gan osod pwyslais ar y cyfeiriad ato'i hun. Y rheswm pam fod loan wedi ei gynnwys oedd ei fod wedi deall fod Iesu Grist, trwy wneud hynny, yn tynnu sylw ato'i hun fel y gweithredydd. Ei weithredoedd ef a fyddent! 'Y gweithredoedd yr wyf *fi* yn eu gwneuthur, yntau hefyd a'u gwna.'

Hawdd deall wedyn sut y byddai'r gweithredoedd hynny yn fwy na'r gweithredoedd a gyflawnodd efe yn nyddiau ei gnawd. Mae'r esboniad yn y frawddeg nesaf: 'oblegid yr wyf *fi* yn myned at fy Nhad'. Fe fyddai'n diosg cyfyngiadau ei ymgnawdoliad ac yn etifeddu'n llawn ei ogoniant priod fel ail berson y Drindod Sanctaidd yn ogystal â'r 'gogoniant' a roes y Tad iddo 'cyn seiliad y byd' y gweddi'ai amdano ychydig yn ddiweddarach (loan 17:24). Enghraifft o'r 'gweithredoedd mwy na'r rhai hyn' fyddai'r hyn a ddiwyddodd ar ddydd y Pentecost.

Pe bai rhywun yn protestio bod y ferf yn yr amser presennol, nad 'y gweithredoedd y byddaf *fi* yn eu gwneuthur' a ddywedodd Iesu Grist ond 'y gweithredoedd yr wyf *fi* yn eu gwneuthur', y mae'n hysbys eto fod y Groeg yn caniatáu defnyddio'r amser presennol i gyfleu haerriad hyderus am y dyfodol. I gadarnhau hyn, yn ei esboniad ar Efengyl loan (Marshall, Morgan and Scott, Llundain, 1971), yn ei sylwadau ar yr adnod hon, dyfynna Leon Morris eiriau F. Blass ac A. Debrunner yn eu *A Greek Grammar of the New Testament* (cyf. R.W. Funk, Chicago a Chaergrawnt, 1961): 'In confident assertions regarding the future, a vivid, realistic present may be used for the future.'

Yr ail reswm pam y cawn hi'n anodd deall geiriau Iesu Grist yn y fan hon yw ein bod mor gyndyn o roi'r sylw dyladwy i'r cyd-destun. Yn ei ffordd nodweddiadol ei hun, roedd Iesu Grist newydd dynnu sylw ei ddisgyblion at y ffaith ei fod yn cymhwyso'r hyn a ddywedodd amdano'i hun, yn ei berthynas â'i Dad nefol, i'r rhai a fyddai'n credu ynddo. Dyna ergyd y geiriau cyfarwydd, 'Yn wir, yn wir, meddaf i chwi'. (Felly'r arferai rybuddio'r ddisgyblion ei fod ar fin gwneud cymhwysiad o bwys.) Beth oedd y cyd-destun felly?

Ychydig eiliadau ynghynt roedd Iesu Grist newydd esbonio i Philip sut y gallai ddweud fod y sawl a'i gwelodd ef wedi gweld y Tad. Roedd hynny'n wir, meddai, oherwydd y berthynas ryfeddol a oedd yn bodoli rhyngddo ef a'i Dad: 'Onid wyt ti yn credu fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau?' Roedd hefyd yn ganlyniad y ffaith ei fod yn ddarostyngedig i'w Dad ac yn llwyr ddibynnol ar ei allu: 'Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthy, nid ohonof fy hun yr wyf yn eu llefaru; ond y Tad yr hwn sydd yn aros ynof, efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd' (Ioan 14:10). Dyna paham y gallai ddweud, 'Y neb a'm gwelodd i a welodd y Tad'.

Wedi egluro natur y berthynas a oedd rhyngddo a'i Dad, aeth Iesu Grist yn ei flaen i wneud y cymhwysiad. Fe fyddai cyfatebiaeth rhwng y berthynas honno a'r berthynas a fyddai rhyngddo ef a'r rhai a fyddai'n credu ynddo. Cyfeiria at ei berthynas ef â'i Dad yn adnod 10: 'Onid wyt ti yn credu fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau?' Esboniodd sut y deuai'r berthynas gyfatebol i fodolaeth yn adnodau 16-19: 'A mi a weddi'af ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Diddanydd arall, fel yr arhoso gyda chwi yn dragwyddol, Ysbryd y gwirionedd, yr hwn ni ddichon y byd ei dderbyn, am nad yw yn ei weled nac yn ei adnabod ef, ond chwi a'i hadwaenoch ef, oherwydd y mae yn aros gyda chwi ac yn och y bydd efe. Ni'ch gadawaf chwi yn amddifaid; mi a ddeuaf atoch chwi. Eto ennyd bach, a'r byd ni'm gwêl mwy, eithr chwi a'm gwelwch; canys byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd.' Cyfeiriodd at y canlyniad gogoneddus yn yr ugeinfed adnod: 'Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn fy Nhad, a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau.'

Yn union fel y gallai ddweud am ei eiriau a'i weithredoedd yn nyddiau ei gnawd mai'r Tad oedd yn eu gwneuthur, felly'n union gallai'r rhai a fyddai'n credu ynddo ddweud yr un peth am eu gweithredoedd hwythau, eu bod yn cyflawni 'ei weithredoedd ef'. A chan mai 'ei weithredoedd ef' fyddent, ac yntau bellach wedi ei ryddhau o gaethiwed ei gorff daearol, nid oedd yn syndod yn y byd ei glywed yn proffwydo y byddai'r gweithredoedd hynny'n fwy, dan yr oruchwyliaeth newydd, na'i weithredoedd ef yn nyddiau ei gnawd.

Braint Iesu Grist fu cael gwneud y gweithredoedd yr oedd ei Dad yn eu gwneud. Braint y credadun fydd cael gwneud y gweithredoedd y bydd Iesu Grist yn eu gwneud! I werthfawrogi ei eiriau, does dim ond rhaid dwyn i gof eiriau'r apostol fel y nesâi at ddiwedd ei yrfa: 'Canys ni feiddiaf fi ddywedyd dim o'r pethau ni weithredodd Crist trwof fi, i wneuthur y Cenhedloedd yn ufudd, ar air a gweithred' (Rhufeiniaid

15:18; cf. Actau 1:1; 14:27).

Mae'n bwysig eithriadol ein bod yn sylweddoli mai'r hyn a wnaeth Iesu Grist trwy'r cyhoeddiad rhyfeddol hwn oedd cyflwyno i'w ddisgyblion, am y tro cyntaf, wirionedd canolog y portread o'r bywyd Cristnogol a roes yn ogoneddus lawn yn Nameg y Wir Winwydden a oedd i ddilyn. Cyfrinach bywyd ysbrydol y Cristion, yn ôl dysgeidiaeth Iesu Grist yn y ddameg honno, yw hyn: 'hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim.' 'Myfi yw'r winwydden', meddai, 'chwithau yw'r canghennau. Yr hwn sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, hwnnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer; oblegid hebof fi ni ellwch chwi wneuthur dim' (Ioan 15:5). Does dim modd gwerthfawrogi'n llawn neges fawr y ddameg honno ond yng ngoleuni'r hyn a ddywedodd Iesu Grist yn yr adnodau hyn yr ydym yn eu hystyried yn awr.

Yn wir, gallwn fynd ymhellach. Wrth i'r Arglwydd Iesu Grist fynd yn ei flaen yn yr adnodau nesaf i esbonio sut y deuai'r disgyblion i wybod yr hyn y byddai ef yn ei wneud, fel y gallent hwythau ei wneud gydag ef, sylweddolwn ei fod wedi gwneud mwy na rhoi portread o'r bywyd Cristnogol. Dechreuodd yn y fan hon ar y portread gogoneddus o'r Eglwys fel un corff gydag ef yn ben a'r holl aelodau'n drachtio'u hadnoddau i gyd oddi wrtho ef. Cysylltwn y darlun hwnnw'n bennaf â'r apostol Paul a'i ddisgrifiad ef o'r Eglwys fel un corff, disgrifiad a geir, er enghraifft, yn ei epistol at yr Effesiaid (4:15-16): 'gan ddywedyd y gwir mewn cariad, cynyddu ohonom iddo ef ym mhob peth, yr hwn yw'r pen, sef Crist, o'r hwn y mae'r holl gorff wedi ei gydymgyngnull a'i gydgyssylltu, trwy bob gymal cynhaliol, yn ôl gweithrediad cymesur pob rhan, yn gwneuthur cynnydd y corff, i'w adeiladaeth ei hun mewn cariad.' Er na ddefnyddiodd yr un symboliaeth yn hollol, yr Arglwydd Iesu Grist sydd piau'r portread gwreiddiol, ac yma, yn y fan hon, y dechreuodd arno. Daw hyn yn gliriach wrth inni ddilyn yr hyn a ddywedodd wrth iddo ateb rhai o'r cwestiynau a fyddai'n codi'n anochel ym meddyliau ei ddisgyblion. Erbyn inni gyrraedd y weddi a weddiodd drostynt y noson honno (Ioan 17), daw'n berffaith glir.

Penbleth y disgyblion

Os cymerwn, am y tro, fod y disgyblion wedi deall, i ryw raddau o leiaf, yr hyn a addawodd Iesu Grist iddynt, yna mae'n deg awgrymu y byddai dwy broblem fawr yn eu hwynebu. Ac yntau newydd eu hysbysu yn y modd mwyaf terfynol ei fod yn eu gadael – 'eto yr wyf ennyd fechan gyda chwi. Chwi a'm ceisiwch; ac megis y

dywedais wrth yr Iddewon, “Lle yr wyf fi yn myned, ni ellwch chwi ddyfod”, yr ydwyf yn dywedyd wrthyh chwithau hefyd yr awron’ (Ioan 13:33) – sut yn y byd y gallent hwy wybod beth fyddai efe yn ei wneud? Yn ail, ac yn bwysicach fyth, sut y gallent hwy wneud y gweithredoedd y byddai efe yn eu gwneud, ac yntau newydd ddweud ei fod yn eu gadael?

Gallent ddeall sut y gallodd ef ei hun wneud y gweithredoedd yr oedd y Tad yn eu gwneud. Onid oedd newydd esbonio bod y Tad nid yn unig ‘ynddo’ (‘Onid wyt ti yn credu fy mod i yn y Tad, a’r Tad ynof finnau?’) ond ei fod hefyd yn ‘aros ynddo’ (‘y Tad yr hwn sydd yn aros ynof, efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd’ (Ioan 14:10)). Gyda golwg ar gael gwybod ewyllys ei Dad ymlaen llaw (fel y gallai wneud yr hyn y byddai ei Dad yn ei wneud), diau i rai ohonynt gofio’r hyn a ddywedodd am ei Dad yn gynharach yn ei weinidogaeth: ‘Canys y Tad sydd yn caru’r Mab, ac yn dangos iddo yr hyn oll y mae efe yn ei wneuthur’ (Ioan 5:20a).

Fe dâl inni oedi am ychydig gyda’r digwyddiad pryd y llefarodd Iesu Grist y geiriau hyn. Ni ellid dod o hyd i well esboniad ar y geiriau a lefarodd yn yr oruwchystafell nag a geir yn yr hyn a ddywedodd ar yr achlysur pryd y llefarodd y geiriau yr ydym newydd eu dyfynnu (Ioan 5:20a). Fe fydd o gymorth amhrisiadwy inni ystyried yr hanes ei hun am ennyd. Awn yn ôl, felly, i’r bumed bennod yn efengyl Ioan.

Cyfrinach ei fywyd

Yr oedd Iesu Grist newydd iacháu gwr claf a fu’n gorwedd yn hir wrth llyn Bethesda heb neb i’w fwrw i’r dwr pan ‘gynhyrfai’ y dyfroedd. Gan iddo feiddio gwneud y fath beth ar y Saboth, y canlyniad fu i’r Iddewon hwythau gael eu ‘cynhyrfu’ yn ddirfawr. ‘Ac am hynny yr Iddewon a erlidasant yr Iesu, ac a geisiasant ei ladd ef, oblegid iddo wneuthur y pethau hyn ar y Saboth’ (Ioan 5:16). Ymateb Iesu Grist oedd egluro iddynt yn dawel, ‘Y mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn, ac yr ydwyf finnau yn gweithio’ (adnod 17). (Hynny yw, ‘os ydych am weld bai arnaf fi, mae’n rhaid i chwi weld bai ar fy Nhad’.) Cynddeiriogodd hynny’r Iddewon yn fwy o lawer! ‘Am hyn gan hynny yr Iddewon a geisiasant yn fwy ei ladd ef, oblegid nid yn unig iddo dorri’r Saboth, ond hefyd iddo ddywedyd fod Duw yn Dad iddo, gan ei wneuthur ei hun yn gystal â Duw’ (adnod 18).

Roedd yn hollol amlwg i Iesu Grist nad oedd yr Iddewon wedi deall ei eiriau. Nid dweud bod Duw yn Dad iddo yn unig a wnaeth ond dweud ei fod ef yn gwneud yr hyn yr oedd ei Dad yn ei wneud. O'r herwydd, mae'n eu goleuo ymhellach:

'Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, ni ddichon y Mab wneuthur dim ohono ei hunan, oddi eithr yr hyn a welo efe y Tad yn ei wneuthur. Canys beth bynnag y mae efe yn ei wneuthur, hynny hefyd y mae'r Mab yr un ffunud yn ei wneuthur. Canys y Tad sydd yn caru'r Mab, ac yn dangos iddo yr hyn oll y mae efe yn ei wneuthur; ac efe a ddengys iddo ef weithredoedd mwy na'r rhai hyn fel y rhyfeddoch chwi' (Ioan 5:19-20).

Eglurodd Iesu Grist yn ei esboniad lawer mwy na dweud ei fod yn gwneud yr hyn yr oedd ei Dad yn ei wneud. Mwy dadlennol fyth yw'r gosodiad na allai wneud dim *ond* yr hyn a welai efe y Tad yn ei wneuthur. Ei agwedd at wneud ewyllys ei Dad (yr hyn y byddem ni yn ei alw'n dderbyn 'arweiniad') oedd aros hyd nes y câi wybod beth fyddai'r Tad yn ei wneud, a gwneud hynny 'yr un ffunud' ag yntau.

Hyn oedd yng nghefn ei feddwl pan ddywedodd (a) wrth yr Iddewon yn ddiweddarach, 'Y mae gennyf fi dystiolaeth fwy nag Ioan; canys y gweithredoedd a *roddes y Tad i mi i'w gorffen* – y gweithredoedd hynny y rhai yr ydwyf fi yn eu gwneuthur – sydd yn tystiolaethu amdanaf fi, mai'r Tad a'm hanfonodd i' (Ioan 5:36); a (b) wrth ei ddisgyblion yn y bennod flaenorol: 'Fy mwyd i yw gwneuthur ewyllys yr hwn a'm hanfonodd, *a gorffen ei waith ef* (Ioan 4:34); ac (c) cyn rhoi ei olwg i ddyn dall o'i enedigaeth: 'Rhaid i mi weithio *gweithredoedd yr hwn a'm hanfonodd*, tra ydyw hi yn ddydd; y mae'r nos yn dyfod, pan na ddichon neb weithio' (Ioan 9:4).

Deall bywyd Iesu Grist

Er i'r Ysgrythur ddweud amdano iddo fyned o amgylch 'yn gwneuthur daioni', nid ei ddewis ef fyddai'r gweithredoedd hynny. Nid ei arfer chwaith oedd eu dewis ac yna gofyn i'w Dad eu bendithio. Dewis ei Dad a fyddent, a'i Dad fyddai'n eu cyflawni trwyddo ac yntau'n eu gorffen. Dyna paham y gallai ddweud amdanynt y geiriau a ddyfynnwyd uchod: 'Y mae gennyf fi dystiolaeth fwy nag Ioan; canys y gweithredoedd a roddes y Tad i mi i'w gorffen – y gweithredoedd hynny y rhai yr ydwyf fi yn eu gwneuthur – sydd yn tystiolaethu amdanaf fi, mai'r Tad a'm hanfonodd i' (Ioan 5:36). Gwyddai Iesu Grist, ac fe ddylasent hwythau wybod hynny hefyd, eu bod yn

weithredoedd a fyddai ymhell y tu hwnt i allu dyn meidrol. O'r herwydd, yr oeddent yn tystiolaethu'n hyglyw fod Duw gydag ef ac mai Duw a'u cyflawnodd trwyddo.

Dyna pam yr oedd Nicodemus mor agos i'w le pan ddywedodd, 'Ni allai neb wneuthur y gwyrthiau hyn yr wyt ti yn eu gwneuthur, oni bai fod Duw gydag ef' (Ioan 3:2), a bod yr Iddewon a phawb tebyg iddynt trwy'r canrifoedd i'w beio cymaint am eu rhagfarnau: 'Y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur yn enw fy Nhad, y mae y rhai hynny yn tystiolaethu amdanaf fi. Ond chwi nid ydych yn credu' (Ioan 10:25b-26a).

Fel y meddylw'n ni am ei fywyd, y demtasiwn yw credu, os bu neb byw erioed y byddai wedi bod yn fuddiol inni ei glywed yn llefaru'n ddilyffethair dros gyfnod ei yrfa fer ar y ddaear, Iesu Grist oedd hwnnw. Pa eisiau oedd iddo ei gyfyngu ei hun i'r geiriau a roddodd ei Dad iddo? Os cerddodd neb ein daear erioed y buasai wedi bod yn 'ddoethineb' ar ei ran i ddefnyddio'i holl adnoddau, a hynny'n ddi-ball, i gyflawni gweithredoedd da, Iesu Grist oedd hwnnw. Nid felly y bu. Yn noethineb Duw, ac yn ôl amodau'r Cyfamod y cytunwyd arno yn nhragwyddoldeb, ei swyddogaeth yn y byd oedd cael gwybod gan y Tad pa eiriau yr oedd i'w llefaru a pha weithredoedd y bwriadai efe eu cyflawni trwyddo, a chydweithio â'r Tad yng nghyflawniad y gweithredoedd hynny. Y canlyniad? Gogoneddu ei Dad: 'Yr hwn a'm gwelodd i a welodd y Tad.' Yng ngeiriau'r apostol Paul, 'Yr hwn, ac efe yn ffurf Duw, ni thybiodd yn beth i ddal gafael ynddo fod yn ogyfuwch a Duw, eithr efe a'i gwacaodd ei hun, gan gymryd arno agwedd gwas, ac a wnaed mewn cyffelybiaeth dynion. A'i gael mewn dull fel dyn, efe a'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau'r groes' (Philippiaid 2:6-8).

Dychwelwn at bennod 14 yn efengyl Ioan ac at eiriau Iesu Grist lle mae'n proffwydo y byddai ei berthynas ef â'r sawl a fyddai'n credu ynddo yn debyg i'r hyn fu ei berthynas ef â'i Dad. Meddai amdano'i hun: 'Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthy, nid ohonof fy hun yr wyf yn eu llefaru; ond y Tad yr hwn sydd yn aros ynof, efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd. Credwch fi, fy mod i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau. Ac onid e, credwch fi ar sail y gweithredoedd eu hunain' (Ioan 14:10b-11). Meddai am y sawl a fyddai'n credu ynddo ef: 'Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, yr hwn sydd yn credu ynof fi, y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, yntau hefyd a'u gwna, a mwy na'r rhai hyn a wna efe; oblegid yr wyf fi yn myned at fy Nhad' (adnod 12).

Nid cyfeirio at yr apostolion yn unig yr oedd ond at gredinwyr yn

gyffredinol: 'yr hwn sydd yn credu ynof fi'. Fe fyddent yn byw yr un math o fywyd yn eu perthynas ag ef â'r bywyd y bu iddo ef ei fyw yn ei berthynas â'i Dad! Nid dweud a wnaeth y dylasant fyw felly ond y byddent yn byw felly!

Yr hyn a ddymunai (ac a fwriadai) Iesu Grist oedd y byddai ei ddisgyblion, yn ogystal â phawb a ddeuai i gredu ynddo ef 'trwy eu hymadrodd hwy', yn ymgyrraedd at sylweddoli hyn yn feunyddiol. Dyna pam yr aeth yn ei flaen i esbonio'n ofalus sut y gallai hyn ddigwydd *ar ôl ei ymadawiad*. Yn gyntaf, esboniodd iddynt yn adnodau 13-14, sut y deuent i wybod beth fyddai'r gweithredoedd y byddai efe yn eu gwneud fel y gallent hwythau wneud hynny hefyd. (Fel y gellid disgwyl fe fyddai i weddi le allweddol yn y trefniadau!) Fe'i mynegodd yn ddigon clir y tro cyntaf. Er hynny, gan ei fod yn wirionedd mor bwysig, fe'i hailadroddodd:

'A pha beth bynnag a ofynnoch yn fy enw i, hynny a wna, fel y gogonedder y Tad yn y Mab. Os gofynnwch ddim yn fy enw i, mi a'i gwnaf' (Ioan 14:13-14).

Yna'n dilyn yn adnodau 15-28 esboniodd sut y byddai modd iddynt ddod o hyd i'r wybodaeth honno, beth fyddai eu cyfraniad hwy at sylweddoli hynny a beth fyddai ei gyfraniad yntau. Yna'n goron ar y cyfan, ac fel prawf digamsyniol ei fod yn credu bod y cyfarwyddiadau hyn yn ddigonol ar eu gyfer, yn adnod 27 ychwanegodd ei asesiad ef o arwyddocâd ysbrydol y cyfarwyddiadau a roddodd iddynt:

'Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; fy nhangnefedd yr ydwyf yn ei roddi i chwi. Nid fel y mae y byd yn rhoddi yr wyf fi yn rhoddi i chwi. Na thralloder eich calon ac nac ofned.'

Dweud yr oedd, pe gwrandawai'r disgyblion arno, y darganfyddent ei fod wedi esbonio iddynt gyfrinach bywyd o dangnefedd pur mewn byd gelyniaethus – yr un tangnefedd â'r tangnefedd a brofodd yntau yn ystod ei oes fer ar y ddaear! Dylem felly roi sylw manwl iawn i'w eiriau.

Yn fy enw i

Hyd y gwyddom, hwn oedd y tro cyntaf i Iesu Grist ddefnyddio'r ymadrodd 'yn fy enw i' mewn cysylltiad â gweddi. Mae'n amlwg ei fod yn rhoi arbenigrwydd arno oherwydd fe ddychwelodd ato yn y bymthegfed bennod a thrachefn yn yr unfed bennod ar bymtheg. Yn wir, wrth edrych ymlaen yn ddisgwylgar atynt yn gweddio felly, y

terfynodd Iesu Grist ei ymgom â'r disgyblion. Dyma'r cyfeiriadau i gyd o'u rhoi i ddilyn ei gilydd:

'A pha beth bynnag a ofynnoch *yn fy enw i*, hynny a wnaif, fel y gogonedder y Tad yn y Mab. Os gofynnwch ddim *yn fy enw i*, mi a'i gwnaf' (Ioan 14:13-14).

'Nid chwi a'm dewisasoch i, ond myfi a'ch dewisais chwi ac a'ch neilltuais chwi, fel yr elech ac y dygech ffrwyth, ac yr arhosai eich ffrwyth, megis pa beth bynnag a ofynnoch gan y Tad *yn fy enw i*, y rhoddo efe i chwi' (Ioan 15:16).

'A'r dydd hwnnw ni ofynnwch ddim i mi. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, pa bethau bynnag a ofynnoch i'r Tad *yn fy enw*, efe a'u rhydd i chwi. Hyd yn hyn ni ofynasoch ddim *yn fy enw i*. Gofynnwch a chwi a gewch, fel y byddo eich llawenydd yn gyflawn. Y pethau hyn a leferais wrthy ch mewn damhegion; eithr y mae'r awr yn dyfod, pan na lefarwyf wrthy ch mewn damhegion mwyach, eithr y mynegaf i chwi yn eglur am y Tad. Y dydd hwnnw y gofynnwch *yn fy enw*, ac nid wyf yn dywedyd i chwi y gweddi'af fi ar y Tad trosoch; canys y Tad ei hun sydd yn eich caru chwi, am i chwi fy ngharu i, a chredu fy nyfod i allan oddi wrth Dduw' (Ioan 16:23-27).

Yr hyn sy'n hynod bwysig inni ei gydnabod yw bod y rhan fwyaf o gredinwyr yn dweud, bob tro y gweddi'ant, eu bod yn gweddi'io 'yn enw' Iesu Grist. Prin y terfynir yr un weddi heb fod y gweddi'wr yn ychwanegu ei fod yn cyflwyno'r weddi honno 'yn enw Iesu Grist', gan ychwanegu, gan amlaf, ei fod hefyd yn gofyn 'yn haeddiant Iesu Grist'. Tybed faint ohonom sy'n sylweddoli wrth wneud hynny na all neb ofyn i'r Mab nac i'r Tad am ddim 'yn enw Iesu Grist', heb i'r Mab ei wneud neu i'r Tad ei roi?

'A pha beth bynnag a ofynnoch *yn fy enw i*, hynny a wnaif . . . Os gofynnwch ddim *yn fy enw i*, mi a'i gwnaf' (Ioan 14:13-14).

'Pa beth bynnag a ofynnoch *gan y Tad yn fy enw i*, y rhoddo efe i chi' (Ioan 15:16b);
'Pa bethau bynnag a ofynnoch i'r Tad *yn fy enw*, efe a'u rhydd i chwi' (Ioan 16:23).

Golyga hyn, yn syml, y dylem fod yn disgwyl i bob gweddi y bu i ni ei hoffrymu 'yn enw Iesu Grist' gael ei hateb, ac, os nad yw hi'n cael ei hateb, y dylem fod yn dra anesmwyth a dweud y lleiaf. Beth aeth o'i le? Dim ond dau bosibilrwydd

sydd. Naill ai nad oedd Iesu Grist yn golygu yr hyn a addawodd neu – yr hyn sy'n llawer mwy tebygol – nad oeddem yn gywir yn dweud ein bod yn eu gweddïo 'yn ei enw'. *'Allwn ni ddim gweddïo am unrhyw beth 'yn enw Iesu Grist' heb i hynny ddigwydd.*

Onid yw'n gwbl amlwg felly y dylai pob Cristion roi blaenoriaeth i'r cwestiwn: 'Beth a olygai Iesu Grist wrth yr ymadrodd "gofyn yn ei enw" mewn perthynas â gweddï?' Mae lle mawr i ofni bod bywyd ysbrydol llawer a dystiolaethodd eu bod yn credu yn Iesu Grist yn rhedeg yn isel iawn y dyddiau hyn. Ni allwn fforddio bod yn ddi-hid ynghylch mater sydd mor bwysig â hyn.

Un amod, dyna i gyd

Nid hwn oedd yr unig dro, o bell ffordd, iddo lefaru fel hyn am weddïo. Rhoes addewid debyg o ran ei ffurf ychydig ynghynt: addewid, fel y cawn weld (pennod 15), sy'n perthyn yn agos iawn i'r addewidion hyn. 'A pha beth bynnag a ofynnoch mewn gweddï, gan gredu, chwi a'i derbyniwch' (Math. 21:22). Dim ond credu, neu, fel y gosodir y mater ychydig yn llawnach gan Marc (sy'n cofnodi'r un hanes), 'credwch y derbyniwch' ac fe ganiateid eu deisyfiad (Marc 11:24). Cyffelyb oedd yr addewid a roes iddynt mewn perthynas i gyfnodau pryd y byddent yn gweddïo gyda'i gilydd: 'Os cydsynia dau ohonoch ar y ddaear am ddim oll, beth bynnag a ofynnant, efe a wneir iddynt gan fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd' (Mathew 18:19). Dim ond iddynt 'gydsynio' ynghylch 'beth bynnag' a ofynnent, fe'i caniateid.

Yr un ffurf yn union sydd i'r addewid a roes Iesu Grist i'w ddisgyblion yn yr oruwchystafell yn y pedwerydd cyfeiriad at weddïo a wnaeth y noswaith honno: 'Os arhoswch ynof fi, ac aros o'm geiriau ynoch, chwi a ofynnwch am beth bynnag a ewyllysioch, ac efe a fydd i chwi' (Ioan 15:7). Dau amod y tro hwn. Dyna i gyd. Yn dilyn, addewid sydd wedi ei osod yn y modd mwyaf deniadol posibl: 'beth bynnag a ewyllysioch, ac efe a fydd i chwi'!

Yr ymadrodd sy'n gyffredin i'r addewidion hyn i gyd yw 'pa bethau bynnag'. Dim ond i un ystyriaeth (neu ddwy yn achos un addewid) fod yn wir am eu deisyfiadau, rhoddid iddynt 'pa bethau bynnag' a fynnent! Adlewyrchiad oedd hyn, yn sicr, o'i ddymuniad i feithrin ysbryd disgwylgar a gobeithiol ynghylch gweddïo yng nghalonau'i ddisgyblion.

Yr un yw Iesu Grist 'ddoe, heddiw ac yn dragywydd'. Nid yw yr un gronyn yn llai awyddus i'w ddisgyblion heddiw weld ergyd ei eiriau fel eu bod yn gallu manteisio arnynt, a hynny gyda gradd o hyder y bydd yr ad-daliad yn fawr. Pe bawn wedi bod yn ddigon ffôl i siarad fel hyn â'r plant pan oeddent yn fach, 'Dim ond i un peth fod yn wir am eich ceisiadau, fe gewch ofyn am beth bynnag a fynnoch ac fe'i cewch', fe fyddai yna le yn ein cartref ni wedyn! Gallaf eu gweld yn prysuro i ryw gornel fach ddistaw i geisio gwneud yn siwr eu bod wedi deall beth yn union yr oedd eu tad yn ei feddwl wrth yr un amod. Ni allent fforddio gwneud camgymeriad a cholli cyfle mor hael. Dod yn ôl i'm holi eilwaith – a thrachefn pe byddai raid – nes gwneud yn berffaith siwr eu bod wedi deall beth oedd yr amod.

Gwyn fyd na châi credinwyr heddiw afiaith tebyg. Beth mewn gwirionedd a olygai Iesu Grist wrth weddio 'yn ei enw'? Beth a olygai wrth yr ymadrodd 'credwch y derbynioch' neu 'ofyn gan gredu' neu 'os cydsyniwch'? Maent un ac oll yn addewidion rhy werthfawr o lawer inni eu hesgeuluso.

Yn sicr iawn, os ydym am obeithio elwa ar ddysgeidiaeth Iesu Grist ar weddi yn yr oruwchystafell, rhaid fydd ceisio deall, yn gyntaf, beth a olygai wrth yr ymadrodd 'gofyn am rywbeth yn ei enw'. Wedi gwneud hynny, gallwn yn ddiweddarach ystyried yr ymadroddion eraill a cheisio'u cysoni â'i gilydd.

Dylem fynd at y dasg honno, nid yn betrusgar nac yn ofnus ond yn yr hyder na fwrriadodd Iesu Grist erioed i'w eiriau fod yn amhosibl eu deall. Mae'r modd y cyflwynodd yr addewidion yn profi mai ei fwrriad oedd denu ei ddisgyblion i obeithio am lwyddiant. 'A pha beth bynnag a ofynnwch' meddai ym mhob achos. Cofiw'n yr un pryd mai ein rheswm dros wneud hyn fydd cael gwybod ganddo beth fydd efe yn ei wneud fel y gallwn ninnau wneud hynny. Y gweddïau a weddïwn 'yn ei enw' fydd yn arwyddo i ni, ymlaen llaw, beth fydd y gweithredoedd hynny.